Polisi Iaith Cyngor Cymuned Llanwenog

Llanwenog Community Council Language Policy

Nod Strategol Cyngor Cymuned Llanwenog

Mae gwarchod a chynnyddu defnydd yr iaith Gymraeg yn nod strategol gan y Cyngor.

IAITH WEITHREDOL

Cymraeg ydi iaith weithredol Cyngor Cymuned Llanwenog.
Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Cymuned Llanwenog o fod yn uniaith Gymraeg, gan nodi fod y Cyngor yn hyrwyddo cymuned ddwyieithog lle gellir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Petai amgylchiadau'n codi lle byddai unigolyn sydd ddim yn medru siarad Cymraeg a Saesneg yn mynychu pwyllgor neu'n aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu'r modd y bydd yn cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Os golyga hyn unrhyw gost ariannol yr unigolyn fydd yn gyfrifol am ei dalu.

Mi fydd unrhyw lythyr a dderbynir o'r cyhoedd yn cael ei ateb yn yr iaith y derbyniwyd y llythyr hwnnw.

COFNODION a'r WEFAN

Darperir cofnodion y Cyngor yn yr iaith weithredol a chant eu cyfieithu i'r Saesneg ai gosod ar wefan y Cyngor Cymuned i'w harchwilio.

Mae'r wefan yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog.

ADOLYGU

Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi pan fydd holl Gynghorau Sir a Chymuned gweddill Cymru yn gweithredu trefn ddwyieithog gytbwys.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd : *Cynghorydd Geraint Davies*
Dyddiad : 4ydd o Orffennaf 2017